

IRM Cymru
Adroddiad
Blynyddol Cyntaf

2010-2011

Cynnwys

| | |
|--|----|
| Crynodeb gweithredol | 1 |
| Cyflwyniad | 2 |
| Rhychwant yr adroddiad | 4 |
| Datblygiadau hyd yma | 5 |
| Ystadegau | 6 |
| Rhesymau Darparwyr Maeth dros wneud penderfyniad cymhwyso | 12 |
| Canlyniadau ceisiadau | 13 |
| Adnabod arferion da | 15 |
| Argymhellion i Ddarparwyr Gwasanaeth Maethu | 17 |
| Adborth ar IRM Cymru | 21 |
| Materion a nodwyd ar gyfer IRM Cymru | 23 |
| Sylwadau i gloi | 24 |

Crynodeb gweithredol

- Daeth y Mecanwaith Adolygu Annibynnol ar gyfer Mabwysiadu a Maethu yng Nghymru i rym ar 2 Ebrill 2010 ac fe'i gweithredir gan BAAF Cymru ar ran Gweinidogion Cymru.
- Yng Nghymru, mae'r cytundeb i weithredu'r IRM yn nodi bod yn rhaid i gynrychiolydd Y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd gael ei wahodd i arsylwi pob gwrandawriad. Eu rôl hwy yw helpu i wneud cyfiawnder gweinyddol a thribiwnlysoedd yn fwyfwy teg ac effeithiol. Mae ganddynt awdurdod i godi materion yn uniongyrchol gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.
- Derbyniodd IRM Cymru 9 o geisiadau rhwng 2 Ebrill 2010 a 31 Mawrth, 2011. Daeth pob un o'r rhain gan ddarpar ofalwyr maeth neu rai sydd eisoes yn ofalwyr maeth.
- Aeth 8 cais yn eu blaenau at wrandawriad Panel Adolygu Annibynnol
- Ni ddaeth unrhyw geisiadau gan ddarpar rieni mabwysiadu na rhieni sydd eisoes yn mabwysiadu.
- Roedd yr achosion maethu'n cynnwys ceisiadau'n ymwneud ag addasrwydd i faethu a newidiadau i'r telerau cymeradwyo.
- Roedd 6 o'r ceisiadau'n ymwneud â gofalwyr carennydd.
- Roedd yr holl argymhellion gan y Panel Adolygu Annibynnol yn unfrydol.
- O'r 5 achos a wrandawyd yn ymwneud ag addasrwydd ymgeiswyr, roedd argymhelliad y Panel Adolygu Annibynnol yn gytûn ag argymhelliad y Darparwr Gwasanaeth Maethu mewn 2 achos.
- O'r 3 achos pan oedd y Panel Adolygu Annibynnol yn argymhell addasrwydd, penderfyniad y Darparwr Gwasanaeth Maethu oedd cymeradwyo'r ymgeisydd mewn 1 achos.
- Cytunodd y Panel Adolygu Annibynnol gyda'r newidiadau arfaethedig i delerau'r cymeradwyo mewn 1 o'r 3 achos.
- Roedd tystiolaeth o rai arferion da iawn, ond nodwyd rhai pryderon hefyd gan y Panel Adolygu Annibynnol a rhoddwyd adborth amdanynt i'r Darparwr Gwasanaeth Maethu, a'r rheiny ynglŷn ag arferion a'r gwelliannau a nodwyd ynglŷn ag arferion a gweithdrefnau.

Cyflwyniad

Mae'r IRM ar gyfer maethu'n rhan o becyn ehangach o fesurau a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru i wella'r broses gymeradwyo ar gyfer gofalwyr maeth ac i annog mwy o bobl i ystyried maethu. Roedd yn ymateb i bryderon gan randdeiliaid bod y broses gymeradwyo, fel ag yr oedd, yn annigonol o annibynnol a'i bod yn dod â maethu yn unol â mabwysiadu, oedd â system Adolygu Annibynnol mewn lle ers mis Rhagfyr 2005. Roedd darpariaeth o dan Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ymestyn cylch gwaith yr IRM i gynnwys maethu.

Ym mis Ebrill 2010 daeth Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010 a Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Cymru (Diwygiad) i rym. Y 'Mecanwaith' yw'r gwasanaeth sy'n cydlynu gwaith y Panelau Adolygu Annibynnol. Gynt, roedd y Mecanwaith Adolygu Annibynnol (y cyfeirir ato ar ôl hyn fel yr IRM) yn cael ei weithredu yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru. Rhoddwyd y cytundeb i BAAF Cymru i weithredu IRM Cymru ar ran Gweinidogion Cymru hyd Fawrth 2013.

Nid yw'r IRM yn broses apêl, nac ychwaith yn awdurdod apeliadol uwch. Swyddogaeth y Panel, yn ymwneud ag achosion maethu, yw adolygu'r holl wybodaeth ynglŷn â "dyfarnu cymhwyster" a gwneud argymhelliad i'r Darparwr Gwasanaeth Maethu ynglŷn ag addasrwydd person i weithredu fel "rhiant maeth i awdurdod lleol" (sy'n cynnwys gofalwyr maeth a gymeradwywyd gan ddarparwyr maethu annibynnol), ac/neu argymhelliad ynglŷn â'r telerau cymeradwyo. Mae'r penderfyniad terfynol ynglŷn â thelerau cymeradwyo'r unigolyn yn aros gyda'r Darparwr Gwasanaeth Maethu.

Cyn mis Ebrill 2010, pe bai Darparwr Gwasanaeth Maethu'n penderfynu peidio â chymeradwyo darpar ofalwr maeth, neu ail-gymeradwyo gofalwr maeth parod neu i newid y telerau cymeradwyo, y dewis i'r darpar ofalwyr maeth / gofalwyr maeth parod oedd derbyn y penderfyniad a gynigwyd neu wneud argymhellion yn ôl i banel maethu'r Darparwr Gwasanaeth Maeth eu hunain. Nod Llywodraeth Cymru, drwy gyflwyno trydydd dewis i ofalwyr maeth, oedd cynyddu hyder y cyhoedd yn nhryloywder y broses gymeradwyo ac annog mwy o bobl i ddod ymlaen i faethu rhai o'r plant mwyaf agored i niwed yng Nghymru.

Dyma'r rhai sy'n gymwys i wneud cais am adolygiad annibynnol:

- Darpar fabwysiadwyr/gofalwyr maeth lle, ar ôl cwblhau eu hasesiad, y mae'r Asiantaeth Fabwysiadu/Darparwr Gwasanaeth Maethu'n gwneud y penderfyniad i beidio â'u cymeradwyo, a rhieni mabwysiadu/ gofalwyr maeth a gymeradwywyd,

y mae'r asiantaeth wrth eu hadolygu, yn cynnig nad ydynt yn addas mwyach i fabwysiadu/maethu.

- Gofalwyr maeth parod lle mae'r Darparwr Gwasanaeth maethu'n bwriadu newid eu telerau cymeradwyo.
- Oedolion sydd wedi eu mabwysiadu, a fabwysiadwyd ar neu ar ôl 30 Rhagfyr 2005, neu berthynas gwaed i rywun sydd wedi ei fabwysiadu ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw, lle mae Asiantaeth Fabwysiadu'n cynnig naill ai (a) na fydd yn mynd yn ei blaen gyda chais i ddatgelu gwybodaeth sydd wedi ei warchod neu (b) y bydd yn datgelu'r wybodaeth yn erbyn ewyllys y sawl sy'n destun yr wybodaeth.

Yng Nghymru, nid oes cymhwyster i ddarpar fabwysiadwyr wneud cais mewn achosion lle mae'r panel wedi ystyried 'adroddiad byr'. Gall panel mabwysiadu neu faethu ystyried adroddiad byr neu ragarweiniol mewn cyfnod cynnar a rhoi cyngor a ddylid cwblhau asesiad llawn neu beidio, ond, ni all y panel wneud 'argymhelliad' ddim ond lle mae asesiad llawn wedi ei gwblhau.

Mae IRM Cymru yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru ac i'r IRM yn Lloegr am eu cyngor a'u cefnogaeth wrth sefydlu'r Adolygiad Annibynnol yng Nghymru.

Rhychwant yr adroddiad

Dyma'r adroddiad blynyddol cyntaf i gael ei gynhyrchu yng Nghymru yn ymwneud â gwaith yr IRM ers ei gyflwyno fis Rhagfyr 2005 ac ymestyn ei gylch gwaith i gynnwys maethu ym mis Ebrill 2010. Mae'n trafod y cyfnod rhwng 2 Ebrill 2010 hyd 31 Mawrth 2011 ac yn darparu gwybodaeth am:

- Ddatblygu gwasanaeth IRM Cymru.
- Gwybodaeth ystadegol a dadansoddi'r ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod 2010-2011 a chanlyniadau'r ceisiadau a wrandawyd yn ystod y cyfnod hwn
- Rhesymau dros y penderfyniadau cymhwyso a thros argymhellion y Panel Adolygu Annibynnol.
- Adborth ar broses IRM Cymru gan ymgeiswyr, darparwyr ac aelodau'r panel.
- Argymhellion i Ddarparwyr Gwasanaeth Maethu.

Datblygiadau hyd yma

Mae'r rhain wedi eu cynnwys;

- Creu gwefan benodol ar gyfer IRM Cymru.
- Rhoi gwybod i bob Asiantaeth Fabwysiadu a Darparwyr Gwasanaeth Maethu yng Nghymru am yr Adolygiad Annibynnol newydd ar Reoliadau Penderfyniadau a'u cyfrifoldebau ynglŷn â hynny. Aeth pob asiantaeth ati wedyn i enwebu person cyswllt i gydlynu'r cyfathrebu gydag IRM Cymru.
- Sefydlu 'rhestr ganolog' o aelodau a chynghorwyr y Panel Adolygu Annibynnol, a sefydlwyd ysgrifenyddion drwy ffurfioli cytundebau gyda'r rhai arferai fod ar restr ganolog Llywodraeth Cymru a oedd yn dymuno parhau i gynnig eu gwasanaeth a thrwy broses recriwtio a phenodi ffurfiol ar gyfer aelodau newydd. Darparwyd cyflwyniad ar gyfer pawb ar y rhestr ganolog, gyda hyfforddiant penodol pellach i ysgrifenyddion y Panel Adolygu.
- Darparwyd sesiynau gwybodaeth ar IRM Cymru mewn fforymau perthnasol gan gynnwys Grŵp Rheolwr Maethu Awdurdod Lleol Gogledd a De Cymru, Grŵp Rheolwr Darparwyr Maethu Annibynnol Gogledd a De Cymru, y Gwasanaeth Maethu ar draws Cymru, Fforwm Mabwysiadu a Maethu De Cymru, grŵp Cadeiryddion Panel De Cymru, grŵp Cyfreithiol BAAF, grŵp Cynghorwyr Gwasanaethau Mabwysiadu a Chymorth Cymru Gyfan. Darparwyd gwybodaeth hefyd yn ystod digwyddiadau hyfforddi BAAF ar gyfer panelau a gwasanaethau mabwysiadu a maethu.
- Rhoi cyhoeddusrwydd i IRM Cymru drwy gyfrwng cylchlythyr BAAF a bwletinau cyfreithiol yn ogystal â chysylltiadau â gwefannau sefydliadau mabwysiadu a maethu eraill.

Ystadegau

Ceisiadau a gafwyd ac a dderbyniwyd gan IRM Cymru ers mis Ebrill 2010

Rhwng 2il Ebrill 2010 a 31ain Mawrth 2011 yr oedd

- 11 cais wedi eu gwneud I IRM Cymru

Roedd pob cais yn ymwneud a maethu

- Ni fu ceisiadau yn y pedwar mis cyntaf



O'r 9 cais sy'n weddill:

- 6 cais carennydd (neiniau a theidiau I gyd)**
Dyfarniad Cymhwyster yn ymwneud â'u haddasrwydd I faethu
- 3 cais maethu'r brif ffrwd**
Dyfarniad Cymhwyster yn ymwneud â newid y telerau cymeradwyo
- 8 achos lle 'roedd y Darparwr Gwasanaeth Maethu'n Awdurdod Lleol**
- 1 Achos lle 'roedd y Darparwr Gwasanaeth Maethu'n Ddarparwr Maethu Annibynnol**
- 8 cais yn mynd ymlaen I wrandawriad**
- 3 cais wedi eu gwneud drwy gyfreithiwr yr ymgeisydd**

Statws yr ymgeiswyr



16

ymgeisydd unigol

Amrediad oedran: 39-70 oed (gyda mwyafrif yr ymgeiswyr yn eu 40au hwyr a'u 50au)

Ethnigrwydd ymgeiswyr (fel y disgrifiwyd nhw yn y ddogfennaeth gan y Darparwr Gwasanaeth Maethu)



Anghenion penodol

Mae IRM Cymru yn gwirio ymlaen llaw am unrhyw anabledd neu nam o ran yr ymgeiswyr a chynrychiolwyr asiantaeth, ac mae'n rhoi ystyriaeth i fynediad i leoliad a'r angen am ddolen glyw. Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau i roi ystyriaeth i anabledd neu nam.

Ni chafwyd ceisiadau i wrando ceisiadau yn Gymraeg.

Amserlenni

Ym mhob achos, trefnwyd bod y panelau Adolygu Annibynnol yn adolygu'r ceisiadau o fewn amserlen y cytunwyd arni sef dau fis a hanner, ond:

(a) Bu'n rhaid gohirio un am fis ar gais y llys er mwyn aros i gwblhau asesiad annibynnol, wedi ei gomisiynu yn rhan o'r achosion gofal parhaus.

(b) Mewn un achos, ystyriodd y Panel Adolygu Annibynnol yr achos o fewn yr amserlen ac yna bu'n rhaid gohirio ac ailgychwyn sawl gwaith yn rhagor oherwydd nad oedd digon o wybodaeth (*Mae Rheol 15 IRD yn caniatáu gohirio lle nad oes digon o wybodaeth yn sail i wneud argymhelliad neu pan fydd y panel yn dymuno gofyn am fwy o wybodaeth. Pan ddigwydd hyn, mae'n rhaid i'r panel ailgychwyn cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl pan fydd y wybodaeth goll ar gael, ond mewn unrhyw achos, ddim hwyrach na 28 diwrnod calendr o ddyddiad gohirio'r panel*)

(c) Mewn un achos, trefnwyd y panel o fewn yr amserlen ac yna bu'n rhaid ei ohirio yn fuan cyn y dyddiad a drefnwyd ar gais y llys a'r Awdurdod Lleol oherwydd achosion gofal parhaus. Newidiodd y cynllun gofal ar gyfer y plant a thynnwyd y cais yn ei ôl wedi hynny gan i'r ymgeisydd gael ei gymeradwyo yn y pen draw gan banel yr Awdurdod Lleol ei hun yn unol â'r cynllun gofal diwygiedig.


Pan mae Asiantaethau Mabwysiadu a Darparwr Gwasanaeth Maethu yn rhagweld y bydd eu darpar fabwysiadwyr/faethwyr neu fabwysiadwyr/maethwyr parod yn gwneud cais i IRM Cymru ar ôl derbyn rhybudd penderfyniad cymwys, mae croeso iddynt wirio gyda staff IRM Cymru os oes cais wedi ei wneud cyn iddyn nhw wneud eu penderfyniad terfynol. Mae hyn yn helpu i sicrhau na wneir penderfyniadau terfynol yn rhy gynnar, gan fod rhai ceisiadau wedi eu derbyn gan IRM Cymru ar yr 28ain diwrnod (dyddiad cau cymhwyso ar gyfer ceisiadau maethu)

Cydnabuwyd cais pob ymgeisydd o fewn 5 niwrnod gwaith a rhoddwyd gwybod i'r Darparwr Gwasanaeth Maethu yn ysgrifenedig o fewn 10 diwrnod gwaith (er bod y Darparwr Gwasanaeth Maethu wedi cael gwybod yn anffurfiol cyn gynted â phosibl cyn hynny)


Roedd yr ymgeiswyr yn ogystal â'r Darparwr Gwasanaeth Maethu'n dda iawn fel rheol am ymateb yn brydlon i geisiadau gan IRM Cymru am wybodaeth a darparu dogfennaeth cyn gynted ag y byddai ar gael.

Cafodd holl argymhellion yr Adolygiad Annibynnol eu postio at y Darparwr Gwasanaeth Maethu o fewn 10 diwrnod. Lle gwnaed cais amdani, roedd yr wybodaeth ar gael yn anffurfiol cyn hynny.

Lleoliad daearyddol yr ymgeiswyr yn yr achosion a dderbyniwyd



Lleoliad Daeryddol Darparwyr Gwasanaeth Maethu



Presenoldeb ymgeiswyr a chefnogwyr

O 8 o'r achosion a wrandawyd:

Mewn 7 achos, mynychodd pob ymgeisydd ac eithrio un achos, pan fynychodd dim ond un o'r ddau.

Y rhesymau a roddwyd dros beidio â mynychu oedd trefniadau gofal plant a rhesymau meddygol.

Mewn 3 achos daeth yr ymgeiswyr â chefnogwyr gyda nhw. Roedd y rhain yn cynnwys ffrind neu gynrychiolydd o'r Rhwydwaith Maethu.

Cynrychiolwyr y Gwasanaeth Maethu yn y Panel Adolygu Annibynnol

Mae'r Canllaw Statudol yn caniatáu i asiantaethau anfon hyd at 2 gynrychiolydd. Mae'r IRM yn cynghori mai'r cynrychiolwyr mwyaf priodol fel arfer yw'r gweithiwr cymdeithasol a wnaeth yr asesiad neu adolygiad yr ymgeisydd a'r rheolwr tîm maethu/mabwysiadu gyda chyfrifoldeb dros yr asesiad/adolygiad hwnnw'n gyffredinol.

Mae'r amrediad o gynrychiolwyr yn yr achosion a wrandawyd wedi cynnwys Rheolwr Tim Maethu, Pennaeth Gwasanaeth, Rheolwr Gwasanaeth, y Gweithiwr Cymdeithasol sy'n asesu neu'n arolygu, Gweithiwr Cymdeithasol blaenorol neu bresennol y plentyn.

Dogfennau a ystyrir gan y Panel Adolygu Annibynnol

Dylai'r Panel Adolygu Annibynnol dderbyn yr holl ddogfennau a gyflwynwyd i'r panel gwreiddiol yn ogystal ag unrhyw wybodaeth berthnasol a ystyrir gan y sawl sy'n gwneud y penderfyniad. Dylai hefyd dderbyn copi o'r cais a rhybudd o'r Penderfyniad Cymhwys.

Mae'n rhaid i geisiadau fod yn rhai ysgrifenedig ac yn cynnwys y sail dros wneud y cais. Caiff ymgeiswyr wahoddiad hefyd i gyflenwi, o fewn cyfnod penodol, unrhyw adroddiadau ychwanegol, geirda neu wybodaeth ysgrifenedig sy'n cefnogi eu cais.

Ym mhob achos, caiff y Panel Adolygu adroddiad ysgrifenedig gan Gynghorydd Cyfreithiol IRM Cymru a bydd mynediad hefyd at gyngor cyfreithiol yn y gwrandawriad. Lle bo'n berthnasol, caiff y Panel Adolygu adroddiad gan Gynghorydd Meddygol IRM Cymru ac os oes angen, gyngor meddygol yn y gwrandawriad.

Darparwyd amrediad o ffurfiau F Ffurflenni BAAF a ddefnyddiwyd gan Awdurdod Lleol ac aseswyr annibynnol ar gyfer y Panel Adolygu yn ogystal ag atodiadau. Defnyddiwyd ffurfiau gwahanol hefyd ar gyfer adolygiad y Darparwr Gwasanaeth Maethu o ofalwyr maeth.

Roedd amrywiaeth ynglŷn â rhoi adroddiadau ychwanegol, megis adroddiadau seicolegol neu asesuadau annibynnol a wnaed fel rhan o'r achosion llys, ar gael naill ai i'r panel gwreiddiol neu i'r Panel Adolygu Annibynnol.

Mae adroddiadau eraill a ystyriwyd wedi cynnwys adroddiadau ysgol, adolygiad statudol y plentyn, polisi gofal carennydd y Darparwr Gwasanaeth Maethu a chofnodion cyfarfodydd cyn y tarfu.

Mae dogfennau atodol gan ymgeiswyr wedi cynnwys geirda ychwanegol, llythyrau gan weithwyr iechyd proffesiynol sy'n gweithio gyda'r plentyn, ffotograffau a datganiadau neu adroddiadau cefnogol yn ymwneud â materion iechyd a diogelwch.

Rhesymau Darparwyr Maeth dros wneud penderfyniad cymhwys

Mewn rhai achosion, ni roddwyd rhesymau neu roedd yn rhaid dod i gasgliad amdanynt drwy gyfeirio at argymhelliad y panel Darparwr Gwasanaeth. Pan roddwyd rhesymau, roedd sawl rheswm ym mhob achos.

Roedd y rhesymau mwyaf cyffredin dros y Dyfarniad Cymhwyster yn cynnwys

- Dal gwybodaeth yn ôl o'r asesu (gan gynnwys amrediad a graddau llawn troseddau)
- Diffyg bod yn agored a gonest gyda'r Darparwr Gwasanaeth Maethu.
- Pryderon ynglŷn â gofal diogel y plant a safon gyffredinol y gofal fyddai'n cael ei ddarparu.
- Methu â chydabod neu weithredu ar bryderon ynglŷn â rhianta'r plentyn gan aelod o'r teulu.
- Hanes rhianta eu plant eu hunain.
- Anallu i ddarparu ffiniau priodol.
- Pryderon ynglŷn â gweithio mewn partneriaeth.
- Perthynas bresennol gyda chyn bartner.
- Perthynas gyda mab/merch (h.y. rhiant y plentyn).
- Dim tystiolaeth o allu i rianta.
- Materion meddygol.
- Diffyg cartref tymor hir addas.
- Materion ffordd o fyw – ysmegu'n bryder cyson.
- Methu â chydabod neu werthfawrogi effaith cyfeillgarwch trafferthus neu darfu o fewn y teulu ehangach.

Canlyniadau ceisiadau

Roedd yr holl argymhellion gan y Panel Adolygu Annibynnol yn unfrydol.

O'r 5 cais lle'r oedd y penderfyniad cymhwyso yn ymwneud ag addasrwydd i weithredu fel rhiant maeth, roedd argymhelliad y Panel Adolygu Annibynnol yn cyd-fynd â'r penderfyniad a gynigwyd gan y Darparwr Gwasanaeth Maethu, mewn 2 achos. Mewn un achos, fodd bynnag, roedd hyn oherwydd nad oedd digon o wybodaeth yn sail i wneud argymhelliad a byddai ailasesiad cyfan gwbl wedi bod yn angenrheidiol ac yn anymarferol o dan yr amgylchiadau.

Roedd penderfyniadau terfynol y Darparwr Gwasanaeth Maethu yn y 3 achos lle'r oedd y Panel Adolygu Annibynnol yn argymhell bod yr ymgeiswyr yn addas i weithredu fel rhieni maeth, fel a ganlyn:

- Gwnaed penderfyniad i gymeradwyo (ymgeisydd i gael ei fonitro'n agos a'i oruchwylio, hyfforddiant i gael ei gynnig ac adolygu'r cymeradwyo o fewn chwe mis).
- Penderfynu peidio â chymeradwyo.
- Penderfynu dod â'r gymeradwyaeth i ben.

O'r 3 cais lle'r oedd y penderfyniad cymhwyso yn ymwneud â newid telerau cymeradwyo gofalwyr maeth, roedd argymhelliad y Panel Adolygu Annibynnol yn cyd-fynd â'r penderfyniad a gynigwyd gan y Darparwr Gwasanaeth Maethu, mewn 1 achos.

Roedd penderfyniad terfynol y Darparwr Gwasanaeth Maethu yn y 2 achos lle na wnaeth y Panel Adolygu gefnogi'r newid arfaethedig i delerau'r cymeradwyo, fel a ganlyn:

- Penderfyniad i beidio newid y telerau cymeradwyo (adolygiad blynyddol i'w gynnal yn ddi-oed yn enwedig o ystyried paramedr unrhyw leoliad yn y dyfodol)
- Penderfynu dod â chymeradwyaeth i ben (yn yr achos hwn nid oedd y Panel Adolygu wedi cefnogi'r newid arfaethedig i delerau'r cymeradwyo oherwydd bod y Panel Adolygu'n ystyried nad oedd yr ymgeiswyr yn addas i fod yn rhieni maeth).

Roedd rhesymau'r Panel Adolygu Annibynnol dros gefnogi'r penderfyniad arfaethedig y Darparwr Gwasanaeth Maethu i argymhell anaddasrwydd i fod yn rhiant maeth neu i newid y gymeradwyaeth yn cynnwys:

- Perthynas y teulu ehangach a diffyg dealltwriaeth yr ymgeisydd o effaith yr holl faterion a diffyg tystiolaeth eu bod wedi newid neu wedi myfyrio.
- Dim digon o dystiolaeth i ddangos y gallai'r ymgeiswyr ymdrin ag anghenion plentyn mewn rhai meysydd.
- Dim digon o allu i newid.
- Anallu'r Gofalwr Maeth i gydnabod pwysigrwydd datblygiad personol.
- Disgwyliadau afrealistig y gofalwr maeth am gefnogaeth.
- Diffyg dealltwriaeth o anghenion plentyn naill ai'n gyffredinol neu mewn meysydd penodol.
- Byddai telerau cymeradwyo cyfyngedig yn rhoi'r gallu i'r Darparwr Gwasanaeth Maethu reoli'r lleoliadau.
- Pryderon na fyddai gofalwr carennydd yn gallu rheoli trefniadau cyswllt.

Rhesymau'r Panel Adolygu Annibynnol dros beidio â chefnogi penderfyniad arfaethedig y FSP

- Mewn sawl achos gofal carennydd, ystyriwyd bod y lleoliad presennol gyda theidiau a neiniau'n sefydlog neu fod y lleoliad pe'i gwneid yn debygol o fod er budd gorau'r plentyn gan ystyried:-
 - (a) Negeseuon cadarnhaol o ymchwil i leoliadau gyda gofalwyr carennydd, yn enwedig teidiau a neiniau a'r fantais o aros o fewn y teulu estynedig.
 - (b) Tystiolaeth o ymrwymiad y teidiau/neiniau.
- Yr oedd y dystiolaeth dros beidio ag argymhell cymeradwyo, mewn rhai achosion, yn aneglur a heb ei gadarnhau a hynny'n bennaf yn ymwneud â phryderon diogelu.
- Mewn rhai achosion, roedd y Panel Adolygu Annibynnol yn ystyried nad oedd yr ymgeiswyr wedi cael digon o gefnogaeth gan yr Awdurdod Lleol, er enghraifft, er mwyn deall cyfrifoldebau gofal carennydd neu'r rhesymau dros weithio mewn partneriaeth neu gynorthwyo gyda llety.
- Nid oedd cyfleoedd hyfforddi perthnasol a hygyrch ar gael i ofalwyr carennydd bob amser.
- Nid oedd digon o dystiolaeth mewn rhai achosion i gyfiawnhau'r amrywiaeth yn y telerau cymeradwyo.
- Roedd y gofalwyr eisoes wrthi'n llwyddiannus yn maethu plentyn sy'n derbyn gofal.

Adnabod arferion da

Adnabuwyd arferion da yn ymwneud a'r meysydd canlynol:

1. Lleoli plentyn:

Roedd plant naill ai wedi eu lleoli o fewn y teulu estynedig neu'r Awdurdod Lleol ac roeddent wedi archwilio lleoli'r plentyn gyda phobl gysylltiedig.

2. Gweithdrefnau Darparwyr Gwasanaeth Maethu

- Roedd rhai Darparwyr Gwasanaeth Maethu eisoes wedi cydnabod a mynd i'r afael â materion ynglŷn â'u protocol erbyn amser gwrandawriad y Panel Adolygu Annibynnol. Enghreifftiau o hyn oedd adolygu'r wybodaeth a roddwyd i ofalwyr carennydd ac adolygu strwythur y tim
- Cychwyn asesu'r gofalwr carennydd yn brydlon ar ol lleoli'r plant.
- Gweithiwr Cymdeithasol y plentyn sy'n mynychu panel Maethu'r Awdurdod Lleol.
- Eglurder adroddiadau ysgrifenedig.
- Cymorth annibynnol i'r gofalwyr wedi ei ariannu gan yr Awdurdod Lleol.
- Y Darparwr Gwasanaeth Maethu wedi ymdrin fel rheol, gyda materion yn briodol ac yn broffesiynol.

3. Y berthynas rhwng y Darparwr Gwasanaeth Maethu a'r ymgeiswyr neu'r gofalwyr maeth

- Roedd yr ymgeisydd wedi gweld y broses asesu'n gadarnhaol neu roedd perthynas gadarnhaol rhwng yr ymgeisydd a'r Darparwyr Gwasanaeth Maethu.
- Cyswllt rheolaidd rhwng yr Awdurdod Lleol a'r Gofalwyr Maeth.
- Roedd yr Awdurdod Lleol yn amlwg wedi gwneud penderfyniad y teimlai fyddai er budd y Gofalwyr Maeth.
- Roedd y Gweithiwr Cymdeithasol Maethu yn amlwg yn gweithio er budd gorau'r Gofalwr Maeth.

4. Cyfraniad cynrychiolwyr y Darparwr Gwasanaeth Maethu:

- Yn y rhan fwyaf o achosion roedd cynrychiolwyr y Darparwr Gwasanaeth Maethu yng nghyfarfod y Panel Adolygu Annibynnol i'w gweld yn agored ac yn barod eu cymorth ac roeddent yn cynnig sylwadau cytbwys. Roedd hi'n amlwg fod rhai wedi paratoi'n well nag eraill.

Argymhellion i Ddarparwyr Gwasanaeth Maethu

Gellir gwneud nifer o argymhellion o'r ceisiadau a ystyriwyd hyd yma. Nodir y rhain mewn perthynas â'r meysydd canlynol:

Canllawiau Statudol i'r Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol

O'r achosion yr ymdriniwyd â nhw hyd yma, ac o'r ymholiadau a dderbyniodd BAAF Cymru'n gyffredinol, mae'n amlwg nad oedd pob un o staff perthnasol y Gwasanaethau Maethu (yn Awdurdod Lleol yn ogystal â'r Darparwr Maethu Annibynnol) yn ymwybodol o'r Canllawiau Statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Chwefror 2010 yn ymwneud â Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol, nac o'r llythyr enghreifftiol yn yr atodiad i'r Canllawiau Statudol.

Argymhelliad 1

Dylai'r holl staff perthnasol yn y Gwasanaeth Maethu fod yn gyfarwydd â Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010 a Chanllawiau Llywodraeth Cymru hefyd.

Rhybudd Dyfarnu Cymhwyster

Roedd yr amser ai heibio rhwng yr argymhelliad gwreiddiol a mater Dyfarnu Cymhwyster yn amrywio, gyda bwlch sylweddol mewn ambell achos, gan gymryd sawl mis weithiau.

Nid oedd rhai dyfarniadau cymhwyster yn amlwg fel y cyfryw, roedd rhai heb eu dyddio ac nid oedd rhai'n cynnwys rhesymau.

Argymhelliad 2

2(a) Dylai Darparwyr Gwasanaeth Maethu sicrhau fod darpar ofalwyr/gofalwyr parod yn cael gwybod mewn modd amserol am y penderfyniad a fwriedir.

2(b) Mae'n rhaid dyddio'r Dyfarniadau Cymhwyster er mwyn sicrhau y gellir gwneud ceisiadau i IRM Cymru o fewn y 28 diwrnod rheoliadol.

2(c) Dylai'r rhybudd Dyfarnu Cymhwyster gynnwys rhesymau a chopi o argymhelliad y panel fel sy'n ofynnol gan Reol 28(6).

2(d) Mae angen i'r rhybudd Dyfarnu Cymhwyster fod yn gwbl amlwg o'r hyn ydyw. Mae Canllaw Statudol Llywodraeth Cymru 2010 i Reoliadau'r IRD yn cynnwys 'llythyr enghreifftiol'.

Asesiadau

Roedd ansawdd yr asesiadau'n amrywio ac roedd rhai adroddiadau yn peri dryswch wrth eu darllen.

Roedd y Panelau Adolygu Annibynnol yn tynnu sylw at faterion penodol yn ymwneud ag ansawdd a lefel goruchwyllo'r asesiadau a wnaed gan aseswyr annibynnol.

Argymhelliad 3

3(a) Dylai fod gan bob un sy'n mynd ati i asesu darpar ofalwyr maeth, fynediad at hyfforddiant a goruchwyliaeth o ansawdd uchel sy'n berthnasol i'r dasg.

3(b) Mae'n rhaid i wasanaethau a phanelau maethu sicrhau fod ganddynt fecanwaith sicrhau ansawdd cadarn.

3(c) Dylai fod cytundebau clir gyda'r rheiny sy'n darparu asesiadau annibynnol, gan gynnwys cytundeb ynglyn a chyfrifoldeb yr asesydd unwaith y mae'r asesiad wedi ei gwblhau ac eglurder ynglyn a phwy sy'n gyfrifol am wneud y gwirio.

3(d) Mae'n rhaid i asesiadau gynnwys dadansoddi trwyadl a chynnwys tystiolaeth glir sy'n cael ei chefnogi. Mewn rhai achosion, nid oedd y dadansoddi'n ddigon eang na dwfn, ac mewn rhai achosion ni ddeuai'r dadansoddi negyddol i'r amlwg tan ddiwedd yr adroddiadau.

Roedd gorddibyniaeth ar adrodd ar lafar mewn rhai adroddiadau asesu.

3(e) Dylid mynd i'r afael â phob pryder ynglŷn â CRB a'u cynnwys yn greiddiol i'r asesiad.

3(f) Mewn asesiadau gofal carennydd, mae'n holl bwysig fod anghenion y plentyn yn cael eu sefydlu a'u dogfennu yn yr asesiad, gan gynnwys manylion ynglyn a sut y gall gofalwyr fodloni'r gofynion rheiny, a dylai hynny gynnwys hyfforddiant a chymorth.

3(g) Dylai timau gofal plant fod yn rhagweithiol wrth sicrhau bod yr wybodaeth am y plentyn wedi ei chyfathrebu'n gadarn wrth yr asesydd, a dylai aseswyr fod yn ymwybodol o'r cynllun gofal ar gyfer y plentyn. Ni ddylid cynnal asesiadau o ofalwyr i blant penodol yn ddigyswllt. Teimlai'r Panel Adolygu Annibynnol hefyd mewn sawl achos, y dylai'r tîm maethu fod wedi chwarae rhan flaengar yn y gwaith o leoli o gychwyn yr asesiad.

3(h) Mae'n rhaid i ymglymiad aml-asiantaeth gael ei ddogfennu yn yr asesiad, yn enwedig gwybodaeth yn ymwneud â chyswllt gyda'r ysgol ac/neu ymwelydd iechyd.

Y panel a'r broses benderfynu

Argymhelliad 4

4(a) Mae'n rhaid i banel a phroses gwneud penderfyniadau'r Darparwr Gwasanaeth Maethu, fod yn glir.

4(b) Lle mae gwybodaeth ysgrifenedig yn mynd at y panel gwreiddiol, dylid ei hanfon hefyd at IRM Cymru lle mae cais wedi ei wneud.

4(c) Mae angen i Ddarparwyr Gwasanaeth Maethu sicrhau na wneir argymhellion nes bod y wybodaeth lawn, fel y'i nodir yn Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003, ar gael. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau meddygol, archwiliadau CRB ar oedolion perthnasol, geirada a chyfweliadau gyda chyn bartneriaid. Gallai fod yn ddefnyddiol defnyddio ffurf adroddiad sy'n rhoi manylion pa wiriadau sydd wedi eu derbyn. *Mewn rhai achosion, nodwyd mai'r rheswm dros fethu a chwblhau'r holl wirio perthnasol oedd oherwydd cydymffurfio ag amserlenni'r llys.* Adroddodd yr Awdurdod Lleol eu bod o dan bwysau gan y llysoedd i wneud argymhellion a phenderfyniadau cyn bod pob gwaith gwirio wedi ei wneud. Pasiwyd hyn ymlaen wedyn at y Panel Adolygu Annibynnol sydd â'r dilema o weithio o fewn amserlenni tynn tra mae'n rhaid i'r Awdurdodau Lleol ddal i barhau gyda chynlluniau ar gyfer y plentyn.

4(d) Mae'n rhaid ceisio cael y gwiriadau CRB a'r rhai meddygol yn gynt yn y broses.

4(e) Mae'n rhaid i adroddiadau neu wybodaeth am ymgeiswyr a gyflwynir i'r Panel, fod wedi ei weld gan yr ymgeisydd cyn y Panel (ar wahân i wybodaeth trydydd parti) a dylai fod tystiolaeth ysgrifenedig yn cadarnhau bod hyn wedi digwydd.

4(f) Dylid cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol o Awdurdod Lleol blaenorol, lle mae ar gael, yn yr adroddiad asesu.

4(g) Dylid rhoi ystyriaeth i wneud cais i'r llysoedd am ganiatâd i ddatgelu adroddiadau arbenigol fel y gallant fod ar gael i'r panel yn sail i wneud argymhelliad.

4(h) Lle mae panel y Darparwr Gwasanaeth Maethu wedi argymhell bod angen dod a chymeradwyo maethu yn ol at eu panel eu hunain i'w monitro o fewn cyfnod penodol, mae'n rhaid i hyn ddigwydd.

4(i) Dylid adolygu defnyddio gofalgwyr y tu allan i'w statws cymeradwyo, yn rheolaidd.

Gwelwyd amrywiaeth yn y cyfnod o amser a gymerwyd i Ddarparwyr Gwasanaeth Maethu ddod i'w penderfyniad terfynnol ar ôl derbyn argymhelliad y Panel Adolygu Annibynnol. Mewn rhai achosion, bu oedi'n rhannol oherwydd bod rhagor o ymholiadau neu asesiadau wedi eu gwneud gan y Darparwr Gwasanaeth Maethu.

4(i) Er nad yw'r Rheoliadau yn manylu ar amser, mae'n hanfodol bod y penderfyniad terfynnol yn cael ei wneud o fewn amserlen resymol.

Pan mae plentyn eisoes wedi ei leoli

Argymhelliad 5

5(a) Dylai'r Awdurdod Lleol sicrhau nad oes oedi wrth wirio diogelwch sylfaenol ac iechyd a diogelwch.

5(b) Mae'n rhaid cychwyn ar asesiadau darpar ofalwyr carennydd o fewn amserlen sy'n cyd-fynd ag anghenion y plentyn. Mewn rhai achosion, roedd y plentyn eisoes wedi ei leoli am gyfnod sylweddol.

5(c) Mae angen i Awdurdodau Lleol ystyried yn ofalus beth yw'r effaith ar y plentyn a'r gofalwyr pan mae lleoliad yn dod i ben yn fyr-rybudd a beth yw'r ffordd orau o reoli hyn.

5(d) Mae angen i'r Awdurdod Lleol ystyried rheoli'r cydbwysedd rhwng anghenion unigol y plentyn a leolir a phwysigrwydd cyswllt â'r teulu.

5(e) Mae'n bwysig sicrhau fod gan Weithwyr Cymdeithasol gofal plant y sgiliau angenrheidiol i gefnogi lleoliadau ag anghenion cymhleth.

Hyfforddiant a chymorth

Argymhelliad 6

6(a) Mae angen i ofalwyr carennydd dderbyn hyfforddiant a chymorth cyn ac ar ôl cymeradwyo. Mae hyn yn rhan hanfodol o greu dealltwriaeth a phartneriaeth. Mae angen i'r hyfforddiant fod yn berthnasol ac yn hygyrch. Mae angen i'r gwasanaeth maethu fod yn rhan o bethau o'r cychwyn gan ddarparu cymorth i ofalwyr carennydd.

6(b) Dylai darpar ofalwyr carennydd gael gwybodaeth am y broses o leoli plentyn gyda nhw gan gynnwys yr angen am gyflwyniadau graddol.

6(c) Mae'n rhaid cadw mewn cof y gall cael dilyniant yn y gweithwyr sy'n rhoi cymorth i gartref maeth, leihau perygl o batrwm gofal anaddas.

Telerau cymeradwyo

Argymhelliad 7

Mae'n rhaid i leoliadau tymor byr a thro dro fod wedi eu diffinio'n dda gyda diwedd glo sydd wedi ei gynllunio.

Adborth ar IRM Cymru

Ni dderbyniodd IRM Cymru unrhyw gwynion yn ystod 2010/11. Mae ymgeiswyr a Darparwr Gwasanaeth Maethu wedi mynegi eu diolchgarwch am y cyngor a roddwyd a'r ymatebion prydlon.

Caiff pob un o aelodau'r Panel Adolygu Annibynnol a'r rhai sy'n mynychu'r panel holiaduron i'w llenwi ynglyn a'r gwasanaeth a ddarparwyd gan IRM Cymru a'u profiad yn y Panel Adolygu.

O'r holiaduron a ddychwelwyd ac o gyswllt uniongyrchol gyda defnyddwyr gwasanaeth ac aelodau'r panel, casglwyd yr adborth canlynol:

- Adroddodd cynrychiolwyr eu bod wedi eu trin yn deg ac wedi eu parchu gan y panel a'u bod wedi cael y cyfle i roi eu cyfraniad nhw.
- Roedd y rhai a fynychodd yn ei gweld yn ddefnyddiol cael proffiliau aelodau'r panel cyn mynd i mewn i'r cyfarfod.
- Mae'r adborth gan Ddarparwyr Gwasanaeth Maethu wedi bod yn gadarnhaol. Er bod IRM Cymru'n gweithredu ar sail rhan amser, cyfeiriwyd at y ffaith, bod galwadau'n cael eu hateb mewn modd amserol a bod trefniadaeth y gwasanaeth wedi bod yn dda. Roeddent yn fodlon gyda'r wybodaeth am rôl a phroses y Panelau Adolygu Annibynnol, er y byddai rhai'n hoffi cael mwy o hyfforddiant yn y maes hwn.
- Yn fwyaf penodol, byddai Darparwyr Gwasanaeth Maethu'n croesawu canllawiau clir ynglŷn â pha wybodaeth y gellir ei darparu i'r Panel Adolygu Annibynnol.
- Mae aelodau'r panel wedi adrodd yn ôl yn gadarnhaol ynglŷn â chynllunio a gweinyddu'r panelau a hygyrchedd personél IRM Cymru.
- Mae'r adborth a ddarparwyd gan Y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, yn anffurfiol ar ddiwedd cyfarfodydd ac yn yr adroddiadau ysgrifenedig, wedi bod yn ddefnyddiol iawn er mwyn helpu'r Panelau Adolygu ddysgu a datblygu.
- Mae cynrychiolwyr y Cyngor Cyfiawnder Troseddol a Thribiwnlysoedd sydd wedi chwarae rhan hyd yma, wedi siarad yn gadarnhaol iawn am y ffordd y mae'r gwasanaeth yn gweithredu ac ansawdd y ddogfennaeth a ddarparwyd ar gyfer y panel. Maen nhw wedi gweld y broses wrando'n glir ac yn effeithlon gyda chwestiynau'n cael eu rhoi gerbron y rhai sy'n mynychu mewn ffordd wrthrychol a theg.
- Mae rôl y cynghorydd proffesiynol yng nghyfarfodydd y Panel Adolygu wedi cael clod uchel gan aelodau'r Panel Adolygu, yn enwedig wrth helpu i gadw sylw'r panel ar faterion perthnasol. Mae'r Cyngor Cyfiawnder Troseddol a Thribiwnlysoedd

hefyd wedi tynnu sylw at bwysigrwydd y rôl hon er mwyn cadw'r Panel ar y llwybr cywir.

Materion a nodwyd ar gyfer IRM Cymru

- Bodloni amserlenni tynn yn achos ceisiadau gofal carennydd, gan roi ystyriaeth i'r oedi sy'n ymwneud â'r achosion gofal cyfredol.
- Mae diffyg ffurf bendant y cytunir arni ar gyfer asesu gofaluwr carennydd wedi bod yn rhwystr.
- Mae'r rhain yn sialensiau penodol er mwyn darparu'r gwasanaeth yng Nghymru oherwydd daearyddiaeth y wlad, ansicrwydd tarddiad ymgeiswyr a sefydlu panelau annibynnol ym mhob achos.
- Nid yw'r Rheoliadau yn caniatáu i'r Panel Adolygu Annibynnol argymhell anaddasrwydd pan ystyrir telerau cymeradwyo. Arweiniodd hyn mewn un achos i'r Panel Adolygu Annibynnol orfod gytuno y dylid newid y telerau cymeradwyo, ond nid am y rhesymau a roddwyd gan y panel gwreiddiol, ond yn hytrach oherwydd nad oedd yr ymgeiswyr yn addas yn gyffredinol i gael eu cymeradwyo.
- Nid oes gan y Panelau Adolygu annibynnol yr hawl i dderbyn cofnodion y Panel Gwasanaeth Maethu, ond o dan Reoliadau Mabwysiadu yng Nghymru, mae'n rhaid i'r rhain fod ar gael i'r Panel Adolygu mewn achosion o fabwysiadu.

Sylwadau i gloi:

- Mae'n ddyddiau cynnar o ran datblygiad IRM Cymru o hyd. Yn ôl y disgwyl, mae wedi cymryd amser i'r holl asiantaethau perthnasol a'r cyhoedd ddod i wybod am y gwasanaeth ac i'r prosesau gael eu deall.
- Roedd cyfradd y ceisiadau yn araf i gychwyn ac yna'n fwy cyson, er yn llai na'r disgwyl yn y flwyddyn gyntaf o weithredu. Mae nifer y ceisiadau wedi codi yn ychydig fisoedd cyntaf yr ail flwyddyn o'u cymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.
- Mae nifer yr ymgeiswyr hyd yma wedi bod yn rhy isel i gael ystadegau fydd yn arwain at ganlyniadau arwyddocaol. Er hynny, mae rhai materion a themâu yn codi yn enwedig yn ymwneud â gofal carennydd a'r rhyngberthynas gyda chynllunio gofal a phroses y llys ac asesiadau perthnasol.
- Mae gwersi defnyddiol wedi eu casglu yn ymwneud ag arferion a materion gweithdrefnau.
- Mae aelodau a chynghorwyr y Panelau Adolygu wedi arddangos lefel uchel o ymrwymiad i'w rôl ac i ddarparu gwasanaeth teg a proffesiynol.
- Mae'r Darparwyr Gwasanaeth Maethu wedi gweithio mewn cydweithrediad ag IRM Cymru ac wedi ymateb yn brydlon i geisiadau am wybodaeth.
- Mae cryn dipyn o waith datblygu i'w wneud eto a bydd y gwasanaeth yn parhau i ddysgu ac i wella.

Mae croeso i unrhyw Ddarparwr Gwasanaeth Maethu neu Asiantaethau Mabwysiadu fyddai'n hoffi i'r Rheolwr Cyswllt ymweld â'u timoedd neu eu panelau i rannu gwybodaeth am IRM yng Nghymru, gysylltu gyda IRM Cymru ar irm@irmcymru.org.uk

Mae gwybodaeth am IRM Cymru ar gael yn www.irmcymru.org.uk neu drwy gysylltu gyda swyddfa IRM Cymru yn irm@irmcymru.org.uk neu ffonio 0845 8731305

*Paratowyd yr adroddiad gan Maureen Ingham
Rheolwr Cytundeb IRM Cymru*

Published in 2012 by

Independent Review Mechanism Cymru

7 Cleeve House
Lambourne Crescent
Cardiff
CF14 5GP

Telephone: 0845 873 1305
Email: irm@irmcymru.org.uk
www.irmcymru.org.uk

British Association for Adoption & Fostering

www.baaf.org.uk

British Association for Adoption & Fostering is a registered charity no. 275689
(England and Wales) and SC039337 (Scotland)
Registered as a company limited by guarantee in England and Wales no. 01379092
Registered office at Saffron House, 6–10 Kirby Street, London EC1N 8TS

Written by Maureen Ingham
Designed by Helen Joubert Design